

Realaeth frawychus

“Pan welodd Iesu dyrfa o’i amgylch, rhoddodd orchymyn i groesi i’r ochr draw.” (adn. 18)

Beth am ddarllen Mathew 8:18–27 ac yna myfyrio

Yr ydym am ddychwelyd yn awr at y syniad bod dyhead y Cristion am y nefoedd yn gorffwys nid ar deimladau goddrychol, ond yn hytrach ar eiriau clir Iesu ei hunan. “Yn nhŷ fy Nhad, y mae llawer o drigfannau,” meddai. “Pe na byddai felly, a fyddwn i wedi dweud wrthyh fy mod yn mynd i baratoi lle i chwi?”

Yr ydym am aros ychydig gyda’r geiriau diwethaf yma, “Pe na byddai felly”, gan fy mod yn tybied fod mwy yn y geiriau nag yr ydym yn ei weld ar y cychwyn. Ddeuddydd yn ôl, fe ddarganfuom fod y geiriau hyn yn arwyddo atgof Iesu o fywyd y nefoedd. Yn wir, ni allai fod wedi ynganu’r geiriau “Pe na byddai felly” oni bai ei fod yn cofio. Ond mae’r geiriau hefyd yn datguddio rhywbeth arall. Maent yn datguddio gonestrwydd yr Arglwydd. Tebyg na all y rhai ohonom sydd yn ei ddilyn ef gredu y byddai yn barod i ganiatáu i ni ein twyllo ein hunain am ein dyfodol. A wyt ti’n tybied y byddai Iesu yn gofyn i ti roi ffydd mewn celwydd? O’r cyfan yr ydym yn ei wybod o Iesu, yr ydym yn gorfod dweud ym mhob amgylchiad fod ei air yn wirionedd.

Fe roedd Iesu yn credu mewn realaeth. Ni fynnai ein twyllo fod unrhyw beth yn wahanol i’r hyn ydyw. Edrychwch ar y ffordd y mae’n delio hefo’r dyn yn yr adran heddiw. “Yr wyf am dy ddilyn di ble bynnag yr ei,” meddai’r dyn gyda brwdfrydedd. Mae Iesu yn dwyn realaeth wyneb yn wyneb â’i frwdfrydedd. Mae gan lwynogod ffeuuau, mae gan yr adar nythod, ond nid oes gan Fab y Dyn un lle i roi ei ben. Mae’r Arglwydd yn mynd i eithafion er mwyn gwneud yn siŵr fod pawb yn ei ddeall. Mae’n mynd i’r un eithafion i sicrhau nad oes neb yn ei gamddeall.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 10:1–18; Ioan 1:1–18

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth gyhoeddodd Iesu ynglŷn â’r hyn yr oedd yn dyst iddo?
2. Beth ddywedodd Ioan ynglŷn â chynfodolaeth Crist?

Gweddi

O Dad, ar gyfrif yr hyn yr wyf yn ei wybod am dy Fab, mae fy nghalon yn llafain. Yr wyf yn sicr na fyddai fy Meistr yn caniatáu i mi gael fy nhwylo, na chael fy nghamarwain, nac ychwaith roi fy ffydd ar rywbeth sydd yn ddi-sail. Mae ei onestrwydd yn gysur. Diolch i ti, O Dad. Amen.